**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**Y FANYLEB PERSON**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau |
| **TEITL Y SWYDD** | Cynorthwyydd Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd |
| **RHIF Y SWYDD** | 502944 |
| **GRADD** | 7 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llantrisant |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| **Ffactor** | **Tystiolaeth** | **Hanfodol/ Dymunol** | **Dull Canfod** |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | **Meddu ar addysg hyd at lefel HNC / HND o leiaf mewn pwnc perthnasol NEU brofiad perthnasol (e.e. rheoli gwybodaeth, gweithio gyda data neu o fewn rôl weinyddol). *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth. *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| | **Profiad o weithio mewn rôl weinyddol.*** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| | Profiad o gyflwyno cyflwyniadau hyfforddi a / neu hwyluso gweithdai hyfforddi. | Dymunol | Y Broses Ddethol |
| | Profiad o ddefnyddio Pecynnau Microsoft Office, yn enwedig Microsoft Excel. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dymunol | Y Broses Ddethol |
| | Profiad o weithio gyda data. | Dymunol | Y Broses Ddethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | **Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| | Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, ac â’r gallu i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Y gallu i anwesu a rhoi gwerth i amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | **Y gallu i gyfathrebu’n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod o gynulleidfaoedd *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| | Bod â'r gallu i arwain, ymroi ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a’r Gymuned ill dau. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Yn meddu ar yr ymrwymiad a’r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, tîm ac eraill er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithredol | Dymunol | Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol *** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** |
| | Y gallu i gynhyrchu gwaith cywir a phroffesiynol, gyda chywirdeb manwl | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Y gallu i arwain eraill i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |

Bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Llwyddiannus yn ogystal â phrawf cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG